

# Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI): Atodiad

Diffinio datblygiad sgiliau arbenigol a chefnogaeth arfer gorau i hyrwyddo tegwch, cynhwysiant a chyfrwng personol.



Datblygwyd gyda

**R N I B**

Cymru

Golwg  
gwahanol



UNIVERSITY OF  
BIRMINGHAM



# Contents

- 3** Datblygu'r Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)
- 4** Hwb Adnoddau
- 5** Terminoleg a ddefnyddir yng nghyd-destun addysgol y DU
  - 5** Lloegr: Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledau (SEND)
  - 5** Gogledd Iwerddon: Diffiniad AAA
  - 6** Yr Alban: Anghenion Cymorth Ychwanegol (ASN)
  - 6** Cymru: Diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- 7** Geirfa o dermau a ddefnyddir yn gyffredin yn y fframwaith
- 10** Cyfeiriadau

# Datblygu'r Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)

Datblygwyd y fframwaith drwy ymgynghori helaeth o fewn y sector fel rhan o brosiect ymchwil dwy flynedd, gyda'r nod o greu un fframwaith uno newydd yn sail i addysg arbenigol plant a phobl ifanc â nam ar y golwg.

Mae'r model "mynediad at ddysgu / dysgu at fynediad" yn darparu'r sail gysyniadol (e.e. McLinden et al, 2016; Keil a Cobb, 2019; RNIB et al, 2021).

Dylai'r fframwaith adlewyrchu anghenion cyffredin plant a phobl ifanc â nam ar y golwg gan gydnabod y bydd gan unigolion anghenion cymorth penodol a'u gwahanol ddefnyddiau eu hunain o'r fframwaith. Mae wedi'i gynllunio ar gyfer yr holl randdeiliaid ym maes addysg nam ar y golwg yn y DU ac mae'n cynnig arweiniad i ddarparwyr gwasanaethau (addysgwyr arbenigol ac anarbenigol), i rieni a gofalwyr, ac i bobl ifanc.

Er mwyn datblygu fframwaith y cwricwlwm a sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan y rhanddeiliaid allweddol hyn, rhannwyd y prosiect yn ddwy elfen allweddol:

**Elfen 1** – Arweiniodd VICTAR ymgynghoriad ledled y DU â rhanddeiliaid i gytuno ar fframwaith y cwricwlwm newydd.

**Elfen 2** – Arweiniodd VIEW, mewn cydweithrediad â'r RNIB, y gwaith o nodi a chatalogio adnoddau allweddol i gefnogi'r fframwaith cwricwlwm arfaethedig.

Roedd hyn yn cynnwys casglu adnoddau sydd eisoes wedi'u datblygu gan wasanaethau addysg nam ar y golwg ac ysgolion ledled y DU ar blatfform hygyrch y gall y sector rannu adnoddau drwyddo.

Ar gyfer Elfen 1, defnyddiodd y prosiect dull ymchwil a elwir yn dull Delphi. Amcan dull Delphi yw arolygu grŵp o arbenigwyr cynrychioliadol sawl gwaith, gan fireinio canlyniadau'r ymgynghoriad bob tro hyd nes bydd consensws cyffredin yn cael ei ffurfio. Mae'r dull hwn wedi cael ei ddefnyddio yn helaeth mewn ymchwil ers blynyddoedd lawer, gan gynnwys ym maes addysg nam ar y golwg, ac mae'n arbennig o addas ar gyfer y math hwn o brosiect ymchwil.

Fel rhan o dull Delphi, cymerodd 50 o gyfranogwyr ran mewn tri chyfnod o gasglu data dros naw mis. Bu'r tîm ymchwil yn gweithio gyda grŵp cyfeirio'r prosiect i nodi'r mathau o swyddogaethau ac arbenigedd y dylid eu hadlewyrchu o fewn y panel arbenigol i sicrhau ei fod yn gynrychioliadol o faes addysg nam ar y golwg. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc â nam ar y golwg a rhieni, a hefyd aelodau o'r gweithlu sy'n darparu cymorth addysgol a datblygiadol arbenigol i blant a phobl ifanc â nam ar y golwg. Roedd aelodau'r panel, yn anochel, yn defnyddio eu profiad o'u lleoliadau eu hunain ond gofynnwyd i bob un ohonynt yn benodol gymhwyso eu harbenigedd i'r sector yn ehangach.

Roedd cyfranogiad aelodau'r panel yn cynnwys cymryd rhan mewn grŵp ffocws ar-lein a chwblhau dau arolwg ar-lein. Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion dull Delphi, a nod y cynllun ailadroddus yw bod aelodau'r panel yn symud yn nes at gonsensws ynghylch yr hyn a ddylai fod yn fframwaith cwricwlwm y cytunir arno yn genedlaethol.

Cynhaliwyd y casglu data cyntaf drwy grwpiau ffocws a hwyluswyd gan aelodau o dîm y prosiect. Cynhaliwyd pob cyfarfod grŵp ffocws ar-lein ar Zoom; cafodd pob un ei recordio a'i drawsgrifio i alluogi dadansoddiad pellach. Gofynnwyd i aelodau'r panel ystyried cyfres o gwestiynau a oedd yn helpu tîm y prosiect i wneud y canlynol:

- dod i wybod am feysydd y cwricwlwm arbenigol a gynnigir yn y DU ar hyn o bryd;
- amlinellu sail resymegol ar gyfer darparu cwricwlwm arbenigol i ddysgwyr â nam ar y golwg;
- sefydlu beth allai'r ffiniau fod ar gyfer meysydd i'w cynnwys o fewn fframwaith cwricwlwm arbenigol newydd yn y DU;
- edrych ar wahaniaethau cenedlaethol a diwylliannol y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu fframwaith ar gyfer y DU gyfan;
- edrych ar sut gellid llunio fframwaith i adlewyrchu oedran ac anghenion unigol dysgwr.

Roedd y data a gasglwyd drwy'r grwpiau ffocws yn sail i amlinelliad cychwynnol o'r Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg. Cynhaliwyd y ddau gam

casglu data dilynol drwy arolygon ar-lein a gynhaliwyd ar Qualtrics. Roedd yr arolygon hyn yn canolbwyntio ar adolygu amlinelliadau drafft o'r fframwaith, gan roi cyfle bob tro i fynegi lefel o fodlonrwydd gyda'r deunydd a ddatblygwyd, ac awgrymu diwygiadau. O blith y 43 o aelodau panel a gymerodd ran yn Rownd 3 ymgynghoriad Delphi, cytunodd 98 y cant bod eu barn wedi'i chasglu ac roedd 93 y cant yn fodlon gyda'r fframwaith diwygiedig. Darparodd y rhai a oedd yn llai bodlon adborth pellach ac ymatebwyd i'r adborth wedyn wrth gwblhau'r fframwaith.

## Hwb Adnoddau

I gyd-fynd â'r fframwaith mae hwb adnoddau pwrpasol sydd â'r nod o annog a chefnogi cydweithwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc â nam ar eu golwg i rannu strategaethau ac adnoddau y maent wedi'u datblygu. Mae'r hwb adnoddau yn storfa ar-lein hygyrch am ddim, a gynhelir gan RNIB Bookshare. Gellir defnyddio'r hwb adnoddau fel lle i uwchlwytho adnoddau i'w rhannu ac fel pwynt cyfeirio cyntaf ar gyfer dod o hyd i adnoddau a gwybodaeth sy'n berthnasol i addysgu'r sgiliau cwricwlwm arbenigol. Y nod yw annog diwylliant o rannu gwybodaeth sy'n arbed amser, yn gwella effeithlonrwydd ac yn darparu lefel o gysondeb o ran yr hyn sy'n cael ei addysgu ledled y DU. Dros amser, gellir defnyddio gwaith datblygu o fewn y meysydd fframwaith eang i gyfrannu ymhellach at y fframwaith a'r hwb adnoddau i greu storfa o wybodaeth ar gyfer y

sector. Bydd cydweithwyr yn gallu defnyddio adnoddau pobl eraill a ddefnyddir i “boblogi” meysydd o’r fframwaith ar gyfer eu gwasanaeth / lleoliad eu hunain. Bydd hyn yn cynnig mwy o ryddid i ddewis sut i gyflwyno’r meysydd ledled y DU.

## Terminoleg a ddefnyddir yng nghyd-destun addysgol y DU

Mae pedair llywodraeth genedlaethol y DU yn cydnabod y gall dysgwyr ag anableddau a/neu anghenion eraill fod angen cefnogaeth “ychwanegol” i’r hyn a ddarperir i ddysgwyr eraill. Mae’r system ar gyfer darparu, y derminoleg a ddefnyddir a sut caiff grwpiau penodol eu diffinio yn wahanol ar gyfer pob gwlad.

### **Lloegr: Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND)**

Mae’r Adran Addysg (DfE) yn gyfrifol am wasanaethau ac addysg plant, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, ysgolion, polisi addysg uwch a phellach, prentisiaethau a sgiliau ehangach yn Lloegr.

Mae hyn yn cynnwys dysgwyr â nam ar y golwg, y mae eu hawl i gefnogaeth yn rhan o’r cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND). Mae’r canllawiau statudol wedi’u nodi yng Nghod Ymarfer SEND (COP) (Yr Adran Addysg, 2015). Yn ôl y COP, mae gan blentyn neu berson ifanc anghenion addysgol arbennig os oes ganddo

anhawster dysgu neu anabledd sy’n galw am wneud darpariaeth addysgol arbennig ar ei gyfer. Mae’n cael ei ddiffinio ag anhawster dysgu neu anabledd os bydd:

“Yn cael anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na mwyafrif y plant eraill o’r un oedran”; neu

“Ag anabledd sy’n ei atal neu’n ei lesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau o’r math a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o’r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd neu sefydliadau ôl-16 prif ffrwd” (yr Adran Addysg, 2015, tt15/16).

### **Gogledd Iwerddon: Diffiniad AAA**

Yng Ngogledd Iwerddon, daw addysg o dan yr Adran Addysg, sy’n rhan o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon. Darperir y fframwaith cyfreithiol gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2016, a elwir hefyd yn Ddeddf SEND ac mae Rheoliadau AAA a Chod Ymarfer AAA newydd yn cael eu datblygu. Diffinnir plentyn fel plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig os:

“...oes ganddo anhawster dysgu sy’n galw am greu darpariaeth addysgol arbennig ar ei gyfer; ac mae gan blentyn “anhawster dysgu” os yw’n cael anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na mwyafrif y plant o’r un oedran, neu mae ganddo anabledd sydd naill ai’n ei atal neu’n ei lesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau addysgol o’r math a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer plant o’i oedran mewn ysgolion cyffredin...” (DENI, 2019)



## Yr Alban: Anghenion Cymorth Ychwanegol (ASN)

Yn yr Alban, mae addysg yn cael ei goruchwyllo gan Lywodraeth yr Alban. Mae dysgwyr sydd â nam ar y golwg yn cael eu cynnwys fel grŵp ar wahân, 'nam ar y golwg', o fewn y categori Anghenion Cymorth Ychwanegol (ASN). Mae'r canllawiau statudol ar gyfer cefnogaeth i ddysgwyr ag ASN wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer Cymorth Ychwanegol ar gyfer Dysgu 2017 (Llywodraeth yr Alban, 2017).

## Cymru: Diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae Llywodraeth Cymru yn goruchwyllo polisi a darpariaeth addysg a sgiliau yng Nghymru. Mae dysgwyr â nam ar y golwg yn dod o dan y categori 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY). Darperir y fframwaith deddfwriaethol gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd (Cymru) 2018, a bydd Cod ADY yn darparu'r canllawiau statudol a'r gofynion gorfodol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn rhan o Raglen Trawsnewid ADY ehangach o ddiwygiadau.



# Geirfa o dermau a ddefnyddir yn gyffredin yn y fframwaith

## Cyfrwng

Yn eu hadolygiad, dywedodd Douglas et al. (2019) mai dwy egwyddor allweddol addysg nam ar y golwg yw: mynediad cyfartal i addysg, a datblygu cyfrwng unigol. Mae cyfrwng yn ymwneud â sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hunanbenderfyniad a'u hannibyniaeth yn yr ystyr ehangaf – mewn pobl ifanc a phobl ifanc sy'n datblygu, gallai hyn ymwneud â gwneud dewisiadau a mynegi bwriad.

Mae cyfrwng yn ymwneud â chynyddu gallu plant a phobl ifanc i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol o fewn amgylchedd yr ysgol, ond hefyd yn rhan o agenda ehangach ynghylch paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn, byw yn annibynnol a chyflogaeth.

## Plant a phobl ifanc

Prif ffocws y fframwaith hwn yw plant a phobl ifanc 0 i 25 oed. Mae'r band oedran hwn yn adlewyrchu darpariaeth addysgol a chanllawiau statudol ar gyfer cefnogi plant ag anableddau ledled y DU ac mae wedi'i ehangu i'r cyfnod cynnar fel oedolyn. Mae'r term 'dysgwr' yn cael ei ddefnyddio'n rhyng-gyfnewidiol â 'plentyn' a / neu 'person ifanc'. Er bod y fframwaith yn cwmpasu'r ystod oedran 0 i 25, gall awdurdodau lleol a gwledydd amrywio o ran y bandiau oedran a gefnogir gan wahanol wasanaethau.

## Anghenion cymhleth

Nid oes cytundeb yn y llenyddiaeth ynghylch sut i ddisgrifio plant a phobl ifanc sydd â nam difrifol ar eu golwg ar y cyd ag anghenion cymorth ychwanegol. Er na all unrhyw ddiffiniad unigol gynnwys yn foddhaol yr ystod o gyflyrau sy'n cynnwys neu sy'n digwydd gyda nam ar y golwg, cyfeirir at 'nam ar y golwg ac anghenion cymhleth' fel term eang.

Mae'r term hwn yn cyfeirio at ddysgwyr sydd, ar y cyd â nam ar y golwg (golygol neu ymenyddol), ag un anabledd neu fwy a allai fod yn gorfforol, yn ddeallusol, yn emosiynol, yn ymddygiadol a / neu yn synhwyraidd eu natur ac a all, ar y cyd â nam ar eu golwg, ddylanwadu'n sylweddol ar eu cyfleoedd dysgu.

O ran cyrhaeddiad addysgol, efallai y bydd dysgwyr ag anghenion cymhleth wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n gweithredu o fewn lefelau datblygiad cynnar drwy gydol eu llwybr addysg. Ymhellach, bydd nodwedd benodol o brofiadau addysgol y dysgwyr hyn yn cynnwys dibyniaeth sylweddol ar eraill i strwythuro eu profiadau dysgu, eu rhyngweithio â phobl a gwrthrychau, ac amrywiaeth ac ansawdd y profiadau synhwyraidd y dônt ar eu traws.

## Tegwch

Mae tegwch yn ymwneud â bod yn deg. Mae'n cydnabod bod rhai pobl yn fwy difreintiedig nag eraill o ran gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, a bod cyfrifoldeb i fynd i'r afael â hyn. Mae tegwch yn wahanol i gydraddoldeb: er bod y ddau yn hyrwyddo tegwch, mae cydraddoldeb yn trin pawb yr un

fath waeth beth fo'u hangen, tra bo tegwch yn cyflawni hyn drwy drin pobl yn unol â'u gofynion. Yn y pen draw, cydraddoldeb yw'r nod terfynol (pawb yn mwynhau hawliau cyfartal), a thegwch yw'r broses i gyrraedd yno (triniaeth deg ac ailddosbarthu adnoddau) (Sightsavers, 2021).

## Cymhwysedd

Cymhwyso ar gyfer annibyniaeth yw'r broses o sicrhau cymaint â phosibl o annibyniaeth i blant a phobl ifanc â nam ar eu golwg. Mae hyn yn cynnwys cefnogi perfformiad swyddogaethol cerrig milltir datblygiadol motor, gwybyddol a seicolegol mewn bywyd bob dydd (Hayton a Dimitriou, 2019).

Nod gweithwyr proffesiynol arbenigol ym maes 'cymhwyso' yw dwyn ynghyd a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol mewn sgiliau cyfeiriadedd ac annibyniaeth plant â nam ar y golwg. Symudedd yw'r gallu i symud a llywio'n gorfforol o amgylch unrhyw amgylchedd penodol (Miller et al., 2011). Mae sgiliau cyfeiriadedd yn deillio o sgiliau symudedd a gwybod ble mae eich safle yn y gofod. Mae sgiliau annibyniaeth yn cwblhau'r triawd cymhwysedd ar gyfer annibyniaeth gan eu bod hefyd yn dibynnu ar symudedd a chyfeiriadedd.

Mynegir sgiliau byw yn annibynnol sy'n gysylltiedig â byw bob dydd yn y cartref ac yn gymdeithasol drwy ymddygiadau addasol (Greenaway et al., 2017; Bathelt et al., 2019)

## Rhieni

Defnyddir y term 'rhieni' mewn ystyr eang yn y fframwaith i gyfeirio

at unrhyw un sy'n rhiant i'r plentyn a'r person ifanc, sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sy'n gofalu am y plentyn neu'r person ifanc. Gallai hyn gynnwys aelodau o'r teulu estynedig, er enghraifft, neiniau a theidiau.

## Ymarferwyr arbenigol

Mae ymarferwyr arbenigol yn cyfeirio at y gweithwyr proffesiynol hynny sydd wedi cael hyfforddiant ac sydd ag arbenigedd mewn addysg / cymhwysedd nam ar y golwg ac sydd hefyd â throsolwg o ddatblygiad y dysgwr, gyda'r nod o sicrhau ei fod yn cael y cyfleoedd angenrheidiol i fod mor annibynnol â phosibl. Yn y DU, bydd cymorth arbenigol o'r fath fel arfer yn cynnwys mewnbwn gan athro cymwys ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg (QTVI) a / neu arbenigwr cymhwysedd cofrestredig (RQHS) neu yn achos oedolion ifanc, swyddog adfer sydd ag arbenigedd mewn nam ar y golwg.

## Y Deyrnas Unedig

Mae'r Deyrnas Unedig yn wladwriaeth sofran sy'n cynnwys pedair gwlad: Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Cyflwynir trosolwg o'r derminoleg a'r ddarpariaeth addysg a ddefnyddir yng ngwahanol wledydd y DU ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledau / anghenion cymorth ychwanegol ar dudalen 5.

## Nam ar y Golwg

Mae 'nam ar y golwg' yn cael ei ddefnyddio fel term generig yn y fframwaith hwn i gwmpasu pob dysgwr sy'n ddall neu â golwg rhannol, gan gynnwys y rhai y mae eu hanawsterau golwg wedi'u lleoli yn yr ymennydd,



y llwybrau golwg yn ogystal ag yn y llygad. Felly mae'n cynnwys plant a phobl ifanc sydd â nam ar y golwg ymenyddol (CVI).

I gydnabod goblygiadau llai o olwg a sut bydd y rhain yn cael eu profi'n wahanol gan ddysgwyr unigol, yn dibynnu ar ystod o ffactorau, rydym wedi dewis diffiniad swyddogaethol o nam ar y golwg yn seiliedig ar un a briodolwyd yn wreiddiol i Natalie Barraga, ac a ddyfynnir yn Flanagan et al. (2003, t497).

Yn y DU, mae'r diffiniad hwn wedi cael ei argymhell i glinigwyr fel modd o sicrhau atgyfeiriadau clinigol ac addysgol priodol a phrydlon

ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg (Keil, Fielder a Sargent, 2016); ac i gynllunwyr gwasanaethau i sicrhau bod dysgwyr ifanc yn cael mynediad at wasanaethau priodol (Flanagan et al, 2003). Defnyddir fersiwn wedi'i addasu a'i ehangu hefyd yn y sector nam ar y golwg i ddarparu gwybodaeth am nam ar y golwg yng nghyd-destun addysg arbenigol (NatSIP, 2020).

Yr hyn sy'n allweddol yn y diffiniad hwn yw'r effaith y mae nam ar y golwg yn ei chael ar ddysgu a datblygiad plentyn, ac a oes angen rhyw fath o ymyriad i sicrhau ei fod yn gallu dysgu, cael mynediad at ddeunyddiau dysgu, a meithrin sgiliau bywyd bob dydd, symudedd a chyfathrebu cymdeithasol. Yn ôl y diffiniad hwn:

"Gellir ystyried bod gan blentyn neu berson ifanc nam ar y golwg os yw hyn yn amharu ar ddatblygiad, dysgu a chyflawniadau gorau posibl oni bai fod addasiadau'n cael eu gwneud yn y dulliau o gyflwyno profiadau dysgu, natur y deunyddiau a ddefnyddir a / neu'r amgylchedd dysgu. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys plant a phobl ifanc ag anableddau / namau eraill yn ogystal â'r golwg, gan gynnwys y rhai ag anghenion dwys a chymhleth. Mae'r term 'dysgu' yn cynnwys nid yn unig dysgu academiaidd ond meithrin sgiliau symudedd, bywyd a chymdeithasol a fyddai, yn achos plentyn neu berson ifanc sydd â nam ar y golwg, yn cael eu darparu drwy addysg cymhwysedd."

(NatSIP, 2020).



## Cyfeiriadau

Bathelt J, de Haan M, Dale NJ (2019). **Adaptive behaviour and quality of life in school-age children with congenital visual disorders and different levels of visual impairment.** Research in Developmental Disabilities 85: 154–162. ([bit.ly/3L2K2kq](https://bit.ly/3L2K2kq))

DENI. (2019). **Recording SEN and medical categories guidance for schools.** Department of Education (NI). ([bit.ly/3Gitphb](https://bit.ly/3Gitphb))

DfE. (2015). **Special educational needs and disability code of practice: 0 to 25 years.** DfE. ([bit.ly/3J15RiE](https://bit.ly/3J15RiE))

Douglas, G., McLinden, M., Ellis, E., Hewett, R., Wooten, A., Ware, J., & Williams, L. (2019). **A rapid evidence assessment of the effectiveness of educational interventions to support children and young people with vision impairment.** Welsh Government, GSR report number 39/2019. ([bit.ly/3IWKgrq](https://bit.ly/3IWKgrq))

Flanagan, N. M., Jackson, A. J., & Hill, A. E. (2003). **Visual impairment in childhood: insights from a community-based survey.** Child: Care, Health and Development, 29(6), 493-499. ([bit.ly/3rjCDFv](https://bit.ly/3rjCDFv))

Greenaway R, Pring L, Schepers A, Isaacs DP, Dale NJ (2017). **Neuropsychological presentation and adaptive skills in high-functioning adolescents with visual impairment: a preliminary investigation.** Applied Neuropsychology: Child 6(2): 145–157. ([bit.ly/3ujHRD1](https://bit.ly/3ujHRD1))

Hayton, J. and Dimitriou, D. (2019). **What's in a word? Distinguishing between Habilitation and Re habilitation.** Vision rehabilitation international, 1(10), 1-4. ([bit.ly/3sskl4n](https://bit.ly/3sskl4n))

Hewett, R., Douglas, G., McLinden, M., Chattaway, T., and Keil, S. (2021) **Lost in Transition? The post-school experiences of young people with vision impairment.** Vision Impairment Centre for Teaching and Research, University of Birmingham. ([bit.ly/3uoxMVw](https://bit.ly/3uoxMVw))

Keil, S. & Cobb, R. (2019). **Learning to Access: Why we need a new UK specialist curriculum to enable equitable participation in education for children and young people with vision impairment.** VIEW discussion paper. VIEW. ([bit.ly/32U9yXX](https://bit.ly/32U9yXX))

Keil, S., Fielder, A., & Sargent, J. (2017). **Management of children and young people with vision impairment: Diagnosis, developmental challenges and outcomes.** Archives of Disease in Childhood, 102(6), 566-571. ([bit.ly/3L8WlvJ](https://bit.ly/3L8WlvJ))

McLinden, M., Douglas, G., Hewett, R., Lynch, P., & Thistlethwaite, J. (2021). **Teaching learners with vision impairment: an analysis of evidence-based practice.** In Oxford Research Encyclopedia of Education. Oxford University Press. ([bit.ly/3gkriid](https://bit.ly/3gkriid))

McLinden, M., Douglas, G., Cobb, R., Hewett, R., Ravenscroft, J. (2016). **'Access to learning' and 'learning to access': Analysing the distinctive role of specialist teachers of children and young people with vision impairments in facilitating curriculum access through an ecological systems theory.** British Journal of Visual Impairment, 34(2), 177-195. ([bit.ly/3AUhOni](https://bit.ly/3AUhOni))

Miller, O., Wall, K.R. & Garner, M. (2011). **Quality standards: Delivery of habilitation training (Mobility and Independent Living Skills) for Children and young people with visual impairment.** Institute of Education. ([bit.ly/3gi2kjs](https://bit.ly/3gi2kjs))

NatSIP (2020). **Children and young people with vision impairment – the facts.** National Sensory Impairment Partnership. ([bit.ly/3JfBV2e](https://bit.ly/3JfBV2e))

Scottish Government. (2017). **Supporting children's learning: Statutory guidance on the education (Additional Support for Learning) Scotland Act 2004 Code of Practice (3rd Ed.).** Scottish Government. ([bit.ly/3uksLOf](https://bit.ly/3uksLOf))

Sightsavers (2021). **Five strategies: glossary of terms.** Sightsavers, UK. ([bit.ly/32Xj24I](https://bit.ly/32Xj24I))

Welsh Government. (2020). **Additional learning needs (ALN) transformation programme.** Welsh Government. ([bit.ly/3okkPYW](https://bit.ly/3okkPYW))

WHO. (2019b). **World report on vision.** World Health Organisation. ([bit.ly/3Gq7Kng](https://bit.ly/3Gq7Kng))

# RNIB

Cymru

---

**Dilynwch ni arlein:**



[facebook.com/rnibuk](https://facebook.com/rnibuk)



[twitter.com/RNIB](https://twitter.com/RNIB)



[youtube.com/user/rnibuk](https://youtube.com/user/rnibuk)

**[rnib.org.uk/cfvi](https://rnib.org.uk/cfvi)**